



Diwrnod T. Llew Jones

11 Hydref



Daeth hi'n amser unwaith eto i ddathlu Diwrnod T. Llew Jones ar ddiwrnod ei ben blwydd ar

11 Hydref. Fe gofiwch ar ôl ei farwolaeth yn 2009 y penderfynwyd, ar gais ysgolion ledled Cymru, fod diwrnod yn cael ei bennu bob blwyddyn i gofio amdano ac i ddathlu ei gyfraniad arbennig i lenyddiaeth plant.



Eleni eto rydym yn annog ysgolion i gymryd rhan yn y dathlu mewn gwahanol ffyrdd, e.e. darllen ei lyfrau, ysgrifennu darn o waith creadigol, gwneud gwaith celf, ynghyd â phob math o weithgareddau trawsgwricwlaidd eraill. Y nod hefyd, yn naturiol, yw cael diwrnod o hwyl wrth i'r plant wisgo fel rhai o'u hoff gymeriadau o'i lyfrau.



Ffeithiau difyr am yr awdur:

Cafodd ei eni ar 11 Hydref 1915.

Bu'n gweithio fel athro a phrifathro.

Cyhoeddodd dros 50 o lyfrau.

A wyddoch chi fod T. Llew Jones yn hoff iawn o chwarae gwyddbwyll?



Cymru ym 1915

A ydych chi wedi gwyllo'r gyfres Y Plas ar S4C ?
I'r cyfnod hwnnw y cafodd T. Llew Jones ei eni, ac roedd Cymru, a'r byd yn wahanol iawn i'n heddiw ni.

Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ei anterth, ac roedd bwyd a deunyddiau yn cael eu dogni.

Roedd yna wahaniaethau rhwng addysg i fechgyn ac addysg i enethod. Roedd bechgyn yn dysgu arlunio a gwyddoniaeth, tra'r oedd y genethod yn dysgu gwyddor tŷ, gwnio, coginio a gofal plant.

Roedd chwaraeon plant y cyfnod yn wahanol iawn i gemau cyfrifiadurol heddiw: byddai plant yn chwarae gyda chylch a bachyn, chwip a thop, concyrs.



Dyma rai syniadau am weithgareddau y gallai'r plant eu gwneud:

- Chwarae rhai o chwaraeon cyfnod plentyndod T. Llew Jones.
- Dylunio clawr ar gyfer un o lyfrau T. Llew Jones.
- Gwisgo fel cymeriad yn un o lyfrau T. Llew Jones.
- Llunio map dychmygol yn cynnig cliwiau er mwyn darganfod ble mae trysor y mor-ladron wedi'i guddio.
- Llunio chwilair o deitlau llyfrau T. Llew Jones.
- Paratoi arddangosfa o lyfrau T. Llew Jones i'w gosod yn yr ysgol.